## Strategaeth Dementia 2026-2036

## Crynodeb o'r ymateb i'r ymgynghoriad

## Ebrill 2026

Age Cymru yw'r brif elusen genedlaethol sy'n gweithio i wella bywydau pob person hŷn yng Nghymru. Credwn y dylai pobl hŷn allu byw bywydau iach a chyffyrddus, gydag incwm digonol, mynediad at wasanaethau o ansawdd uchel a'r cyfle i lunio eu dyfodol eu hunain. Rydym yn ceisio darparu llais cryf i bob person hŷn yng Nghymru ac i godi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n bwysig iddynt.

Yn gyffredinol, diagnosis cynharach yw'r newid mwyaf hanfodol yr ydym am ei weld. Mae cael diagnosis cynnar a chywir yn galluogi pobl sy'n byw gyda dementia i gynllunio'n well ar gyfer y dyfodol. Mae diagnosis yn galluogi mynediad at ofal, cefnogaeth a thriniaeth symptomatig, sy'n helpu pobl i reoli eu cyflwr yn well a byw'n annibynnol gartref am gyfnod hirach. Mae adborth gan ein gwasanaethau Eiriolaeth Dementia a'n hymgysylltiad ehangach yn tynnu sylw at sut mae dryswch ynghylch diagnosis a chyfnodau gwahanol o ddementia yn cael ei gyfathrebu'n wael, sy'n effeithio ar allu teuluoedd i gynllunio ar gyfer y dyfodol, felly er bod diagnosis cynharach yn hanfodol, mae angen gwella dulliau cyfathrebu hefyd.

Rydym yn cefnogi'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth ond byddem yn cwestiynu a ellir troi nodau yn ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n byw gyda dementia heb adnoddau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau. Er enghraifft, mae'r strategaeth yn cydnabod bod llwyddiant yn seiliedig ar ddeall pa asedau cymunedol sy'n bodoli a sut y gellir eu defnyddio. Mae Cymru wedi gwneud cynnydd o ran darparu rhwydwaith o wasanaethau cysylltwyr cymunedol ledled Cymru a all helpu pobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd, ond mae’r rhain ond yn gweithio os oes asedau cymunedol yn bodoli i gyfeirio pobl atynt. Yn ehangach na'r strategaeth dementia, mae llawer o grwpiau cymunedol yn cael trafferth sicrhau cyllid i barhau â'u gwaith cymunedol. Mae cyfeillgarwch, grwpiau cymdeithasol, clybiau cinio ac eraill yn cael trafferth gyda chostau cynyddol. Dylid ystyried bregusrwydd cefnogaeth y trydydd sector a'r gymuned wrth gynllunio llwybrau a chomisiynu gwasanaethau.

Mae pobl sy'n byw gyda dementia mewn mwy o berygl o gam-drin ac esgeulustod ac nid yw'r adran hon yn canolbwyntio ar y maes hwn yn ddigonol. Mae'n bwysig bod hyfforddiant ac arweiniad yn ystyried sylwi ar arwyddion a symptomau cam-driniaeth ac esgeulustod i bobl sy'n byw gyda dementia.  Mae esgeulustod yn medru digwydd oherwydd bod gofalwyr wedi blino’n llwyr, felly mae'n hanfodol bod gofalwyr yn cael digon o wybodaeth, cyngor a chefnogaeth ym mhob cyswllt i leihau'r risg o esgeulustod.

Rydym yn cefnogi'r gydnabyddiaeth yn y strategaeth bod darpariaeth Gymraeg yn hanfodol i bobl sy'n byw gyda dementia. Fel y nodwyd, byddai telerau'r contract yn cynnwys hyn fel 'dylai.' Er mwyn sicrhau bod darpariaeth hanfodol yno, dylid newid hyn i 'angenrheidiol.'

Rydym yn gwerthfawrogi'r gydnabyddiaeth yn y strategaeth bod defnyddio'r iaith gywir a chyfathrebu da yn gwella'r profiad gofal yn sylweddol a hoffem weld mwy o fanylion yn cael eu cynnwys wrth i'r strategaeth gael ei ddatblygu. Mae adnabod gofalwyr hŷn di-dâl yn broblem hysbys ac mae diffyg yn rhwystro gofalwyr rhag cael mynediad at yr help y mae ganddynt hawl iddo gyda'r nod o gael ansawdd bywyd da ochr yn ochr â gofalu. Heb fwy o gydnabyddiaeth o'r rôl hanfodol y mae gofalwyr yn ei chwarae a pham mae angen mynediad cynharach at wybodaeth a chyngor arnynt, gall problemau waethygu ac arwain at gost bersonol enfawr i'r gofalwr a'r unigolyn sy’n derbyn gofal.

Nid yw'r iaith a ddefnyddir o amgylch diagnosis bob amser yn ddigon clir bod diagnosis o ddementia yn golygu byw gyda salwch terfynol sy'n cyfyngu ar fywyd. Mae profiad pobl unigolyn sy’n byw gyda dementia yn wahanol. I rai mae hyn yn golygu dirywiad cyflym ac felly mae cynnwys trafodaethau ar ofal diwedd oes yn gynnar yn hanfodol.

Canfu adroddiad 2024 gan Marie Curie fod pobl a fu farw o ddementia neu glefyd Alzheimer yn llai tebygol o fod wedi derbyn gofal gan arbenigwyr gofal lliniarol yn ystod tri mis olaf eu bywyd. Mae gwella llwybrau i ofal lliniarol yn gwella'r profiad i deuluoedd y rhai sy'n byw gyda dementia ac felly dylid eu hymgorffori mewn llwybrau cynllunio gofal.

Mae'n hanfodol bod hyfforddiant dementia yn dod yn orfodol drwy'r Strategaeth Dementia i sicrhau cysondeb a rhoi hyder i deuluoedd a gofalwyr y bydd eu hanwyliaid yn derbyn gofal diogel, tosturiol gan weithwyr proffesiynol dibynadwy. Mae'r cyhoeddiad diweddar am Academi Gofal Cymdeithasol i Gymru yn gyfle da i ymgorffori hyfforddiant gorfodol sy'n briodol i anghenion y gweithlu gofal cymdeithasol eang. Dylai'r datblygiad hwn gael ei lywio gan y rhai sydd â phrofiad bywyd.

Nododd y gwerthusiad o'r cynllun dementia blaenorol lywodraethu fel maes yr oedd angen ei gryfhau. Mae'r strwythurau llywodraethu sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth ddrafft yn parhau i fod yn debyg i lywodraethu blaenorol felly mae'n parhau i fod yn aneglur o'r strategaeth ddrafft a oes digon o gryfder i yrru gwelliant. Byddai'n ddefnyddiol cynnwys amserlenni ar gyfer amlder cyfarfodydd y bydd y Bwrdd Gweinidogol a'r Bwrdd Cynghori yn eu cynnal, ac os fydd monitro presenoldeb a chyfranogiad yn rhan o drefniadau monitro.

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw Y Llawr Gwaelod, Tŷ’r Morwyr, Llys Trident, Ffordd Ddwyrain Moors, Caerdydd CF24 5TD. © Age Cymru 2026.